# WILLIAMS, DANIEL JENKINS (1874 - 1952), gweinidog (MC/Presb.) a hanesydd achos y MC yn America

**Enw:** Daniel Jenkins Williams
**Dyddiad geni:** 1874
**Dyddiad marw:** 1952
**Plentyn:** Robert Hugh Williams
**Rhiant:** Jane Mary Williams (née Jenkins)
**Rhiant:** Robert H. Williams
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog (MC/Presb.) a hanesydd achos y MC yn America
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Hanes a Diwylliant
**Awdur:** Edward George Hartmann

Ganwyd 22 Rhagfyr 1874, yn Genesee Depot, mewn ardal amaethyddol a sefydliad bychan o Gymry, yn fab i Robert H. a Jane Mary (ganwyd Jenkins) Williams. Dwyflwydd oed oedd y tad pan ymadawodd y teulu ag ardal Gwalchmai yn Ynys Môn yn 1846 ac ymsefydlu yn Wisconsin. Yn Wisconsin y ganwyd y fam yn fuan ar ôl i'w rhieni gyrraedd yno o Geredigion ac ymsefydlu yn y drefedigaeth fechan Gymreig yn swydd Waukesha yn 1850. Addysgwyd y mab yn ysgol bren leol yr ardal a alwyd Wales wedi i'r rheilffordd gyrraedd yno yn 1882, ac yng Ngholeg Carroll, a graddio ym Mhrifysgol Wisconsin, B.A. 1899, M.A. 1900, a chymryd ei B.D. yn yr Union Theological Seminary yn 1903. Yn 1904-05 bu'n dilyn cyrsiau yng Ngholegau Christ Church a Mansfield yn Rhydychen, gan ymddiddori mewn llenyddiaeth Geltaidd a phregethu yng Nghymru yn ystod y gwyliau. Parhaodd i bregethu yn Gymraeg a Saesneg ar hyd ei oes. Bu dylanwad eglwys Bethania (MC), Wales (Wisc.) yn drwm arno. Yn 1914 cafodd radd Ph.D. o Brifysgol Talaith Ohio, ac yn 1918 rhoes Coleg Carroll radd D.D. er anrhydedd iddo. Gwasanaethodd nifer o eglwysi wedi ei ordeinio yn Synod (MC) Wisconsin yn 1906 : Arbor Vitae, Wis., 1905-07, eglwys (MC) Gymraeg Columbus, Ohio, 1908-11, Presb. 1, Oshkosh, Wis., 1911-15, Presb. 1, Wausau, Wis., 1915-20, Presb. 1, Cedar Rapids, Ia., 1920-23, Presb. Gymreig, Miami Ave., Columbus, O., 1932-33. Ymddeolodd yn 1933 i ganolbwyntio ar ysgrifennu hanes swyddogol eglwys MC America. Oherwydd gwaeledd ei wraig treulient y gaeafau yn Florida a'r hafau yn Wisconsin a byddai yntau'n gwasanaethu eglwysi yn ôl y galw. Wedi claddu ei wraig bu'n gofalu am eglwysi Presb. bychain gwledig Delafield a Stone Bank. Ef oedd llywydd synod Bresb. Wisconsin yn 1915. Yn ystod ei weinidogaeth yn Wausau sefydlodd gymanfa ganu a phregethu boblogaidd ar y bryn lle y preswyliai mewn t a elwid Bryn Mawr, a thynnai filoedd o bellter ar ddyddiau o haf. Wedi ymddeol yn 1951 bu'n gaplan preswyl y Masonic Hall and Eastern Star Hospital ger Dousman, Wis. Bu farw 29 Mai 1952 yn Ysbyty Columbia, Milwaukee, a chladdwyd ef ar 2 Fehefin, wedi gwasanaeth yn eglwys Jerusalem, Wales, Wis. yn agos i fan ei eni. Bu iddo un mab, y Brigadydd Robert Hugh Williams, a fu farw yn 1983. Y mae ei dair cyfrol yn gyfraniadau pwysig tuag at hanes y Cymry yn y Taleithiau Unedig : *The Welsh of Columbus, Ohio: a study in adjustment and assimilation* (1913); *The Welsh community of Waukesha county, Wisconsin* (1926); a *One hundred years of Welsh Calvinistic Methodism in America* (1937), yr olaf yn hanes swyddogol Eglwys MC America o'i dechreuad hyd ei huno gydag Eglwys Bresbyteraidd America yn 1920.

## Awdur

**Edward George Hartmann**, (1912 - 1995)

## Ffynonellau


Cofnodion synod Wisconsin, 1952

*Alumni Directory, Union Theological Seminary*

*Y Drych*, 15 Awst 1952

llythyrau gan ei fab Robert Hugh Williams, 21 Ionawr 1983, a'i ferch-yng-nghyfraith, Alice Tuckerman Williams, 23 Chwefror 1983


## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 275807960

Wikidata: Q20821096


**Dyddiad cyhoeddi:** 1997



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu